**BEIRNIADAETH CYSTADLEUAETH 359**

**ARAITH NEU ANERCHIAD DAN 19 OED AR UNRHYW BWNC LLOSG**

**BEIRNIAD: RHUN AP IORWERTH**

Dyma'r tro cyntaf i mi gael y fraint o feirniadu gwaith ysgrifenedig yn Eisteddfod yr Urdd. Gyda dim ond 2 wedi cystadlu y llynedd, roeddwn yn falch o allu dechrau gyda chystadleuaeth gymharol gyfyngedig ei maint. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod areithio ac annerch wedi dod yn fenter boblogaidd iawn gan i 29 cais ddod i law! (Roedd tystiolaeth bod 3 arall wedi ceisio cystadlu ond heb lwyddo i uwchlwytho eu ceisiadau.)

Pleser felly oedd cael clirio mwy o amser nac a dybiwn fyddai ei angen ar gyfer y dasg - a chael hoe estynedig o ymgyrchu etholiadol! - i bori drwy geisiadau mor niferus ac, rwy'n falch o ddweud, geisiadau o gystal safon.

Rydw i wedi eu gosod mewn 3 dosbarth.

Yn y **trydydd dosbarth** gosodais y ceisiadau hynny oedd, tra'n trafod pynciau pwysig gydag angerdd, yn dangos unai dystiolaeth annigonol wrth gyflwyno'r dadleuon, wendidau yn y gosod allan, neu gamgymeriadau/blerwch ieithyddol. Roedd un yn ymddangos fwy fel llythyr yn hytrach nac araith nac anerchiad.

Roedd 10 ymgeisydd yn y categori hwn, sef Annabelle, Ava, Colton, Curiad, Ffion, Gwen, Gwenan, Llais Afon Gwy, Mylee a Rhosyn. Rwy'n gobeithio y bydd pob un yn parhau i gystadlu gan geisio cryfhau eu sgiliau ysgrifennu a mireinio sut i gyflwyno eu dadleuon.

Symudaf wedyn at yr **ail ddosbarth** – gwaith safonol, lle mae dadleuon wedi cael eu gosod allan yn effeithiol, gyda gwaith ymchwil i'w weld yn amlwg. Ceir safon iaith dda ar y cyfan, ond mae'r llif yn cael ei golli weithiau wrth ddarllen ambell gais, drwy baragraffau rhy hir, neu ailadrodd, er enghraifft - er mai araith/anerchiad i'w thraddodi ar lafar yw hon, cystadleuaeth rhyddiaith ydi hi.

Roedd 11 cynnig o safon uchel yn y dosbarth hwn – Adda, Briwsion, Buwch Goch Gota, Gwlith, Mali, Nieve, Now Wê, Porth Colmon, Selog, Telyn Enfys a Wilson. Edrychaf ymlaen i'ch gweld ar lwyfannau gwleidyddol mewn blynyddoedd i ddod!

A dyma ddod at y **dosbarth cyntaf**. I mi, roedd 8 yn y dosbarth hwnnw. Yma, mae safon yr iaith yn raenus, ceir enghreifftiau rhagorol o waith ymchwil ac o gyflwyno ac adeiladu dadleuon yn gelfydd. Ceir angerdd yma, ac yn hanfodol i mi, mae 'llais' y cystadleuydd i'w glywed yn glir.

Yr 8 hynny yw aelod 21103512 (anghofiodd bennu ffugenw), Awen, Gorwel, Gwas y Neidr, Jess Fishlock, Popty Ping, Soch Mewn Sach a Titw Tomos Las. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Ond rhaid dewis 3 i ddod i'r brig.

Ceir ymhlith yr 8 amrywiaeth eang iawn o ran testunau a maint, gyda mwy o sylwedd ymchwil i rai nac eraill. Ond am 'argraff' ydw i'n chwilio yn y pen draw. Iaith lafar goeth, a 'rhywbeth' i fachu go iawn yn y sawl sy'n 'gwrando'.

Yn **3ydd** rwy'n gosod **Soch Mewn Sach**. Anerchiad am gyfraniad yr Urdd i Gymru yw hwn. Mae'n eithaf byr o'i gymharu a llawer o'r lleill, ond yn ogystal a chynnwys wedi ei grefftio'n ofalus, yn adrodd hanes yr Urdd a'i ddylanwad dros Gymru, cefais fy nenu gan yr iaith lafar – nid Cymraeg ysgrifenedig 'cywir' a geir yma, ond does gen i ddim amheuaeth am safon Cymraeg y sawl a'i ysgrifennodd, a gall yr awdur ei ddarllen yn rhwydd o flaen cynulleidfa. Does dim byd stiff yma o gwbl.

Yn **2il** mae **Gwas y Neidr**, sy'n cynnig araith swmpus ar y cwestiwn o ddyfodol y Frenhiniaeth. Araith wleidyddol, angerddol yn gwneud yr achos dros weriniaeth Gymreig yw hi. Wedi ei ysgrifennu i safon uchel iawn, mae agosatrwydd yn y cyflwyno hefyd.

Ac yn **1af**, mae **Titw Tomos Las**. Dyma anerchiad hwyliog sydd wedi ei ysgrifennu'n gelfydd, ac wrth ei ddarllen rwy'n 'clywed' y geiriau'n cael eu hadrodd ar lafar. Astudiaeth fachog o le cyfryngau cymdeithasol yn ei cymdeithas sydd yma. Mae'n ddechrau drwy ofyn i'r gynulleidfa "*A wnaiff bawb ddiffodd eich ffonau os gwelwch yn dda*?" Ac i bwysleisio mor ganolog yw'n teclynnau poced i gynifer o bobl, mae'n ychwanegu "*Dw i'n gwybod... Mae gofyn i chi ddiffodd eich ffonau yr un peth a gofyn i chi roi'r gorau i ocsigen!"* Gyda'r ffônau wedi diffodd, mae'n dechrau ar y "*detocs byrraf yn hanes Cymru*!"

Mae yma ymchwil, a dealltwriaeth o'r maes dan sylw, ond yn ogystal a dysgu rhywbeth, bydd y gynulleidfa wedi cael eu difyrru hefyd. Pan mae'n gofyn ar y diwedd "*peidiwch ag anghofio hoffi a thanysgrifio"* rwy'n siŵr y byddai llawer o'r gynulleidfa yn barod i wneud!

Llongyfarchiadau mawr i ti.